The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

| Trosolwg – Sgrinio trawsffiniol a gynhelir gan yr Ysgrifennydd Gwladol | |
|---|---|
| **Enw'r Prosiect:** | Prosiect Pŵer Abergelli |
| **Cyfeiriad/Lleoliad:** | Tir amaethyddol i'r gogledd o Abertawe, tua 1km i'r de-ddwyrain o Felindre, 760m i'r gorllewin o Lwyncelyn a 1.4km i'r gogledd o Langyfelach. Cyfeirnod grid canol y safle: 265284, 201431. |
| **Cyf yr Arolygiaeth Gynllunio:** | EN010069 |
| **Dyddiad(au) cynnal y sgrinio:** | Sgriniad cyntaf – 18/07/2014 yn dilyn cais yr Ymgeisydd am farn gwmpasu<br>Ail sgriniad – 27/09/18 yn dilyn cyflwyniad Datganiad Amgylcheddol ac Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol yr Ymgeisydd mewn perthynas â'r Rheoliadau Cynefinoedd |
| **Gwladwriaethau EEA a nodir ar gyfer eu hysbysu:** | Sgriniad cyntaf: Ni nodwyd unrhyw rai<br>Ail sgriniad: Ni nodwyd unrhyw rai |

| Y SGRINIAD TRAWSFFINIOL CYNTAF A GYNHALIWYD GAN YR YSGRIFENNYDD GWLADOL | |
|---|---|
| **Dogfen(nau) a ddefnyddiwyd ar gyfer sgrinio trawsffiniol:** | Prosiect Pŵer Abergelli, Adroddiad Cwmpasu'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ('yr Adroddiad Cwmpasu') |
| **Dyddiad:** | 18/07/2014 |
| **Meini Prawf Sgrinio:** | **Sylwadau'r Ysgrifennydd Gwladol:** |
| **Nodweddion y Datblygiad** | Byddai'r datblygiad a gynigir yn cynnwys:<br>• Gwaith cynhyrchu pŵer newydd ar ffurf gorsaf gynhyrchu pŵer brig ar ffurf Tyrbin Nwy Cylch Syml sy'n rhedeg ar nwy naturiol ac sy'n gallu darparu capasiti trydanol o hyd at 299MW, sy'n cynnwys<br>  ◦ Yr offer cynhyrchu gan gynnwys y cynyrchyddion tyrbin nwy ac offer ategol<br>  ◦ Ffordd fynediad bwrpasol newydd naill ai o Heol Rhyd-y-pandy i'r gogledd (Ffordd Fynediad – Opsiwn 1) neu o'r B4489 i'r gorllewin (Ffordd Fynediad – Opsiwn 2)<br>  ◦ Cwrt adeiladu dros dro (y Llecyn Storio)<br>• Cysylltiad nwy newydd i ddod â nwy naturiol i'r offer cynhyrchu naill ai o'r System Genedlaethol ar gyfer Trawsyrru Nwy neu'r System Leol ar gyfer Trawsyrru Nwy, sydd wedi'i leoli o fewn ardal gyfle'r cysylltiad nwy;<br>• Cysylltiad trydanol newydd i allforio pŵer o'r offer cynhyrchu i System Trawsyrru Trydan y Grid Cenedlaethol ar gyfer ei ddosbarthu i gartrefi a busnesau, a leolir o fewn ardal gyfle'r cysylltiad nwy;<br>• Fel gwaith cynhyrchu brig (a fyddai'n gweithredu pan fydd ymchwydd yn y galw) byddai'r offer cynhyrchu'n gweithredu am hyd at 1,500 awr y flwyddyn;<br>• Byddai nwyon gwastraff a gwres yn cael eu gollwng i'r atmosffer drwy rhwng 1 a 5 stac ffliw; bydd y staciau'n |

| | |
|---|---|
| | cynnwys offer i leihau unrhyw allyriadau;<br>• Byddai adeiladu a chomisiynu'r prosiect yn cymryd tua 22 mis;<br>• Cynllunnir y gwaith cynhyrchu pŵer i fod â bywyd gweithredol o 25 mlynedd, ac wedi hynny, byddai naill ai'n cael ei ddatgomisiynu neu ei ail-bweru. |
| **Ardal ddaearyddol** | Nid yw'r ymgeisydd wedi nodi o fewn ei Adroddiad Cwmpasu p'un ai y byddai unrhyw effeithiau'n debygol o ymestyn y tu hwnt i awdurdodaeth y DU. |
| **Lleoliad y Datblygiad (gan gynnwys defnydd presennol)** | Lleolir y safle o fewn Dinas a Sir Abertawe. Y dosbarthiad tir amaethyddol ar gyfer y tir o fewn ac o amgylch y safle a gynigir yw gradd 4 (sef tir amaethyddol o ansawdd gwael) ac mae'n cynnwys yn bennaf caeau glaswelltir wedi'i wella a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer pori defaid a cheffylau. Yn ogystal, o fewn y safle a gynigir, mae pwll glo segur, safle tirlenwi a mannau bach o laswelltir corsiog a choedlannau coetir ymhlith y glaswelltir wedi'i wella i'r gogledd a'r dwyrain.<br><br>Mae'r safle wedi'i leoli tua 8km o arfordir Gorllewin Cymru a Môr Hafren. |
| **Effeithiau cronnol** | Mae'r Adroddiad Cwmpasu'n nodi'r datblygiadau canlynol i'w cynnwys o fewn yr asesiad cronnol i'w gynnal fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol:<br>• Cais Cynllunio 2013/0795 – Gosod pedwar tyrbin gwynt 5kW sy'n 120.7m o uchder at y brig a seilwaith cysylltiedig ym Myle Coch Mawr;<br>• Cais Cynllunio 2013/0135 – Gosod aráe ar y ddaear o baneli solar, is-orsafoedd gwrthdroyddion a ffensiau 2.4m o uchder ar dir yn Fferm Abergelli. Lleolir y datblygiad hwn o fewn ardal gyfle'r cysylltiad nwy ar y safle a gynigir;<br>• Cais Cynllunio 2013/1639 (Parc Solar Rhyd-y-pandy) – Adeiladu parc solar 7MW sy'n cynnwys gosod hyd at 28,250 o baneli ffotofoltäig a hyd at chwe chaban gwrthdroyddion/trawsnewid, un adeilad rheoli a darparu ffensiau diogelwch;<br>• Datblygiadau a gynigir o fewn Ardal Ddatblygu Bro Tawe a datblygiadau eraill, pe bai gwybodaeth yn dod ar gael yn gyhoeddus mewn da bryd i ganiatáu ei chynnwys.<br><br>Mae Adran 4.3 yr Adroddiad Cwmpasu yn ymdrin â'r asesiad cronnol. |
| **Cludwr** | Llygredd posibl drwy aer, tir a dŵr. |
| **Pwysigrwydd Amgylcheddol** | Y tri safle Ewropeaidd dynodedig sydd o fewn 10km i'r safle a gynigir yw Safle Ramsar ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig Cilfach Tywyn, Ardal Cadwraeth Arbennig Bae ac Aberoedd Caerfyrddin a Safle Ramsar ac Ardal Cadwraeth Arbennig Cors Crymlyn. Mae dau SoDdGA ac un Warchodfa Natur Leol o fewn 5km i'r safle a gynigir, ac mae 23 Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur o fewn 2km i'r safle a gynigir. |

| | |
|---|---|
| | Yr AHNE agosaf yw Gŵyr, sy'n bell o'r safle a gynigir ac wedi'i wahanu'n weledol gan y topograffi sydd rhwng yr ardaloedd.<br><br>Ymdrinnir â Threftadaeth Ddiwylliannol ac Archaeoleg yn adran 5.10 yr Adroddiad Cwmpasu. O fewn 5km i'r safle ceir 17 Heneb Gofrestredig, un adeilad rhestredig Gradd I, 54 adeilad rhestredig Gradd II, 3 Pharc a Gerddi Hanesyddol Gradd II, dwy ardal gadwraeth a nifer o asedau treftadaeth ddiwylliannol amrywiol sydd heb eu dynodi, gan gynnwys adeiladau, gwrthgloddiau, ardaloedd o goetir hynafol , safleoedd strwythurau sy'n hysbys o ffynonellau dogfennol yn unig, olion archaeolegol o dan yr wyneb, safleoedd a gofnodir fel marciau cnydau yn unig a mannau darganfod ynysig. |
| **Ehangder** | Heb ei nodi yn Adroddiad Cwmpasu'r ymgeisydd. Ar sail y mesurau dylunio sydd wedi'u cynnwys yn natblygiad a gweithrediad y mesurau lliniaru ac arfer gorau (yn unol â gofynion y corff rheoleiddio), ni nodwyd unrhyw effeithiau sylweddol a allai effeithio ar Aelod-wladwriaeth EEA arall. |
| **Maint** | Ni nodwyd unrhyw effeithiau a fyddai'n debygol o effeithio ar Aelod-wladwriaeth EEA arall. |
| **Tebygolrwydd** | Ni nodwyd unrhyw effeithiau a fyddai'n debygol o effeithio ar Aelod-wladwriaeth EEA arall. |
| **Parhad** | Ni nodwyd unrhyw effeithiau a fyddai'n debygol o effeithio ar Aelod-wladwriaeth EEA arall. |
| **Amlder** | Ni nodwyd unrhyw effeithiau a fyddai'n debygol o effeithio ar Aelod-wladwriaeth EEA arall. |
| **Gwrthdroadwyedd** | Ni nodwyd unrhyw effeithiau a fyddai'n debygol o effeithio ar Aelod-wladwriaeth EEA arall. |

**Sgrinio trawsffiniol a gynhelir gan yr Ysgrifennydd Gwladol**

O dan Reoliad 24 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009 (fel y'u diwygiwyd) (y Rheoliadau EIA) ac ar sail y wybodaeth gyfredol sydd ar gael gan yr Ymgeisydd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod y datblygiad a gynigir **yn annhebygol** o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd mewn Gwladwriaeth EEA Arall.

Wrth lunio'r farn hon, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dilyn y dull rhagofalus (fel yr esboniwyd yn Nodyn Cyngor 12: Effeithiau Trawsffiniol yr Arolygiaeth Gynllunio); ac wedi cymryd i ystyriaeth y wybodaeth a ddarperir ar hyn o bryd gan yr Ymgeisydd.

**Gweithredu**:

Nid oes unrhyw weithredu pellach yn ofynnol ar y cam hwn.

**Dyddiad** 18/07/2014

**Noder:** Mae dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Reoliad 24 y Rheoliadau EIA yn parhau trwy gydol y broses ymgeisio.

| **YR AIL SGRINIAD TRAWSFFINIOL** | |
|---|---|
| **Dogfen(nau) a ddefnyddiwyd ar gyfer sgrinio trawsffiniol:** | Datganiad Amgylcheddol Aecom (Dogfen Cais 6.1) ac Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol Aecom (Dogfen Cais 5.5), y ddau d/o Abergelli Power Ltd (dyddiedig Mai 2018). |

| **Dyddiad(au) cynnal y sgrinio:** | Ail-sgriniwyd ar 7 Tachwedd 2018 ac ar dderbyn y dogfennau a nodir uchod. |
|---|---|

**Ail-sgrinio trawsffiniol a gynhelir gan yr Arolygiaeth ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol**

Ar ôl cyflwyno'r cais DCO a oedd yn cynnwys y Datganiad Amgylcheddol ac Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol yr Ymgeisydd a gododd yn ystod yr archwiliad, mae'r Arolygiaeth wedi ailystyried y penderfyniad sgrinio trawsffiniol a wnaed ym mis Gorffennaf 2014.

Mae'r Arolygiaeth yn nodi y gwnaed newidiadau i'r Datblygiad a Gynigir sy'n destun cais DCO ers gwneud y penderfyniad sgrinio trawsffiniol blaenorol ar 18 Gorffennaf 2014. Fodd bynnag, mae'r Arolygiaeth o'r farn na fydd y newidiadau yn arwain at effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd mewn gwladwriaeth EEA arall, ac felly nid yw'r casgliad yn newid o'r hyn sydd yn y penderfyniad sgrinio trawsffiniol blaenorol.

Mae'r newidiadau a nodir yn y cais DCO wedi'u crynhoi isod:

- Bydd y Gwaith Cynhyrchu Pŵer Tyrbin Nwy Cylch Syml (tua 2.65ha) yn cynnwys un Cynhyrchydd Tyrbin Nwy a stac ffliw nwy gwag, yn hytrach na'r 5 posibl a restrir yn y cais gwreiddiol.
- Cynnydd o 5m yn uchder uchaf y stac ffliw nwy gwag, i 45m.
- Adleolir y Gwaith Cynhyrchu Pŵer ac fe'i lleolir i'r gogledd o Brif Bibell Ddŵr Dŵr Cymru sy'n bodoli.
- Dewiswyd llwybr mynediad o'r B4489 i'r gorllewin o'r safle.
- Dewiswyd opsiwn (Opsiwn B) ar gyfer rhan newydd o ffordd fynediad (yn ychwanegol at y llwybr a gyflwynir yn Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol 2018).
- Bellach, mae'r cysylltiad trydanol yn rhedeg yn gyfochrog â'r ffordd, yn hytrach na rhedeg oddi tani.

Ystyriwyd sgriniad trawsffiniol y Datblygiad a Gynigir gan roi sylw i'r darpariaethau trosiannol yn Rheoliad 37 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (Rheoliadau EIA 2017). Gofynnodd yr Ymgeisydd i'r Ysgrifennydd Gwladol fabwysiadu barn gwmpasu mewn perthynas â'r datblygiad y mae'r sgriniad yn berthnasol iddo cyn 16 Mai 2017 (sef dyddiad cychwyn Rheoliadau EIA 2017). Felly, ystyrir mai Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009 (Rheoliadau EIA 2009) yw'r Rheoliadau EIA perthnasol.

O dan Reoliad 24 Rheoliadau EIA 2009 ac ar sail y wybodaeth gyfredol sydd ar gael gan yr Ymgeisydd, nid oes newid i'r casgliad blaenorol, ac mae'r Arolygiaeth yn parhau o'r farn nad yw'r Datblygiad a Gynigir yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd mewn gwladwriaeth EEA arall.

Wrth lunio'r farn hon, mae'r Arolygiaeth wedi dilyn y dull rhagofalus (fel yr esboniwyd yn ei Nodyn Cyngor 12: Effeithiau Trawsffiniol); ac wedi cymryd i ystyriaeth y wybodaeth a ddarperir ar hyn o bryd gan yr Ymgeisydd.

**Gweithredu:**

Nid oes unrhyw weithredu pellach yn ofynnol ar y cam hwn.

Ni nodwyd unrhyw Wladwriaethau EEA newydd sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar eu hamgylchedd.

**Dyddiad**: 7 Tachwedd 2018

**Noder:** Mae dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Reoliad 24 Rheoliadau EIA 2009 yn parhau trwy gydol y broses ymgeisio.

Noder:

1. Mae sgrinio materion trawsffiniol gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn seiliedig ar yr ystyriaethau perthnasol a nodir yn Atodiad 4 Nodyn Cyngor 12 yr Arolygiaeth Gynllunio, sydd ar gael ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio yn https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/legislation-and-advice/advice-notes/

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

| **Overview - Transboundary screening undertaken by the Secretary of State** | |
|---|---|
| **Project name:** | Abergelli Power Project |
| **Address/Location:** | Agricultural land north of Swansea, approximately 1 km southeast of Felindre, 760m west of Llwyncelyn and 1.4km north of Llangyfelach. Grid Reference of site centre: 265284, 201431. |
| **Planning Inspectorate Ref:** | EN010069 |
| **Date(s) screening undertaken:** | First screening – 18/07/2014 following the Applicant's request for a scoping opinion<br>Second Screening – 27/09/18 following the Applicant's submission of an Environmental Statement and Habitats Regulations No Significant Effects Report |
| **EEA States identified for notification:** | First screening: None identified<br>Second Screening: None Identified |

| **FIRST TRANSBOUNDARY SCREENING UNDERTAKEN BY THE SECRETARY OF STATE** | |
|---|---|
| **Document(s) used for transboundary Screening:** | Abergelli Power Project, Environmental Impact Assessment Scoping Report ('the Scoping Report') |
| **Date** | 18/07/2014 |
| **Screening Criteria:** | **Secretary of State Comments:** |
| **Characteristics of the Development** | The proposed development would comprise:<br><br>• A new power generation plant in the form of a Simple Cycle Gas Turbine (SCGT) gas fired peaking power generating station fuelled by natural gas and capable of providing and electrical capacity of up to 299 MW comprising:<br>    • The generating equipment including the gas turbine generators and balance of plant<br>    • A new purpose built access road either from the Rhyd-y-pandy Road to the north (Access Road – Option 1) or the B4489 to the west (Access Road – Option 2)<br>    • A temporary construction compound (the Laydown Area)<br>• A new gas connection to bring natural gas to the generating equipment from either the National Transmission System (NTS) or the Local Transmission System (LTS), which is located within the gas opportunity area;<br>• A new electrical connection to export power from the generating equipment to the National Grid Electricity Transmission System (NETS) for distribution to homes and businesses which is located within the gas connection opportunity area;<br>• As a peaking plant (required to operate when there is a surge in demand) the generating equipment would operate for up to 1500 hours per year; |

| | |
|---|---|
| | • Waste gases and heat would be released to the atmosphere via between 1 and 5 stacks; the stacks will contain equipment to reduce any emissions;<br>• Construction and commissioning of the project would take approximately 22 months;<br>• The power generation plant would be designed to have an operational life of 25 years after which time it would either be decommissioned or repowered. |
| **Geographical area** | The applicant has not indicated within their Scoping Report whether any impacts are likely to extend beyond the jurisdiction of the UK. |
| **Location of Development (including existing use)** | The site is located within the City and County of Swansea. The agricultural land classification for the land within and surrounding the proposed site is grade 4 (poor quality agricultural land) and is dominated by improved grassland fields used for grazing sheep and horses. In addition within the proposed site, is a disused coal mine, a landfill as well as small areas of marshy grassland and woodland copses interspersing the improved grassland to the north and east.<br><br>The site lies approximate 8 km from Wales West coast and the Bristol Channel. |
| **Cumulative impacts** | The Scoping Report identifies the following developments for inclusion within the cumulative assessment to be undertaken as part of the Environmental Statement:<br>• Planning Application 2013/0795 – Installation of four 5 kW wind turbines 120.7 m to tip and associated infrastructure at Myle Coch Mawr;<br>• Planning Application 2013/0135 – Installation of ground mounted array of solar panels, inverter substations and 2.4 m high fencing on land at Abergelli Farm. This development would be located within the gas connection opportunity area on the proposed site;<br>• Planning Application 2013/1639 (Rhyd-y-pandy Solar Park) – Construction of 7 MW solar park consisting of installation of up to 28,250 photovoltaic panels and up to six inverter/transformer cabins, a single control building and provision of security fencing;<br>• Proposed development within the Swansea Vale Development Area and other developments, should information become publically available in time to allow inclusion.<br><br>Section 4.3 of the Scoping Report deals with the cumulative assessment. |
| **Carrier** | Potential pollution via air, land and water. |
| **Environmental Importance** | The three designated European sites that lie within 10 km of the proposed site are Burry Inlet Ramsar Site and SPA, Carmarthen Bay and Estuaries SAC and Crymlyn Bog Ramsar Site and SAC. Two SSSI's and one LNR lie within 5km of the proposed site, there are 23 SINC's within 2 km of the proposed site. |

| | |
|---|---|
| | The nearest AONB is the Gower which is remote from proposed site and is visually separated by intervening topography.<br><br>Cultural Heritage and Archaeology are dealt with within section 5.10 of the Scoping Report. Within 5 km of the site there are 17 Scheduled Monuments, one Grade I listed building, 54 Grade II listed buildings, 3 Grade II Historic Parks and Gardens, two conservation areas and various undesignated cultural heritage assets including buildings, earthworks, areas of ancient woodland, sites of structures known only from documentary sources, sub-surface archaeological remains, sites recorded only as cropmarks and isolated findspots. |
| **Extent** | Not identified in the applicants Scoping Report. On the basis of the design measures built into the development and the implementation of mitigation measures and best practice (in line with regulatory body requirements), no significant effects have been identified which could impact on another EEA Member State. |
| **Magnitude** | No impacts have been identified which would be likely to affect another EEA State. |
| **Probability** | No impacts have been identified which would be likely to affect another EEA State. |
| **Duration** | No impacts have been identified which would be likely to affect another EEA State. |
| **Frequency** | No impacts have been identified which would be likely to affect another EEA State. |
| **Reversibility** | No impacts have been identified which would be likely to affect another EEA State. |

**<u>Transboundary screening undertaken by the Secretary of State</u>**

Under Regulation 24 of the Infrastructure Planning (Environmental Impact Assessment) Regulations 2009 (as amended) (the EIA Regulations) and on the basis of the current information available from the Applicant, the Secretary of State is of the view that the proposed development **is not likely** to have a significant effect on the environment in another EEA State.

In reaching this view the Secretary of State has applied the precautionary approach (as explained in the Planning Inspectorate's Advice Note 12: Transboundary Impacts Consultation); and taken into account the information currently supplied by the Applicant.

**Action**:

No further action required at this stage

**Date** 18/07/2014

**Note**: The Secretary of State's duty under Regulation 24 of the EIA Regulations continues throughout the application process.

| **SECOND TRANSBOUNDARY SCREENING** | |
|---|---|
| **Document(s) used for transboundary Screening:** | Aecom Environmental Statement (Application Document 6.1) and Aecom No Significant Effects Report (NSER) (Application Document 5.5) both c/o Abergelli Power Ltd (dated May 2018). |

| | |
|---|---|
| **Date screening undertaken:** | Re-screened on 7th November 2018 and on receipt of the above mentioned documentation. |

**Transboundary re-screening undertaken by the Inspectorate on behalf of the SoS**

Following submission of the DCO application which included the Environmental Statement and the Applicant's NSER arising during examination, the Inspectorate has reconsidered the transboundary screening decision made in July 2014.

The Inspectorate notes that changes have been made to the Proposed Development the subject of the DCO application since the previous transboundary screening decision was made on 18th July 2014. However, the Inspectorate considers that the changes will not result in significant effects on the environment in another EEA State, and therefore the conclusion remains unchanged from that in the previous transboundary screening decision.

The changes noted in the DCO application are summarised below:

- The SCGT Power Generation Plant (c.2.65ha) is to be made up of a single Gas Turbine Generator and exhaust stack, as opposed to the potential 5 listed in the original application.
- The maximum height of the exhaust stack has been increased by 5m, to 45m.
- The Power Generation Plant has been relocated and is to be sited to the north of the existing Welsh Water Main.
- An access route from the B4489 to the west of the site has been selected.
- An option has been selected (Option B) for a new section of access road (in addition to the route presented in the 2018 PEIR report).
- The electrical connection now runs parallel with the road, as opposed to running under it.

The transboundary screening of the Proposed Development has been considered taking into account the transitional provisions in Regulation 37 of the Infrastructure Planning (Environmental Impact Assessment) Regulations 2017 (the 2017 EIA Regulations). The Applicant requested the SoS to adopt a scoping opinion in respect of the development to which the screening relates prior to 16 May 2017 (the date of the commencement of the 2017 EIA Regulations). The Infrastructure Planning (Environmental Impact Assessment) Regulations 2009 (the 2009 EIA Regulations) are therefore considered to be the applicable EIA Regulations.

Under Regulation 24 of the 2009 EIA Regulations and on the basis of the current information available from the Applicant there is no change to the previous conclusion, and the Inspectorate remains of the view that the Proposed Development is not likely to have a significant effect on the environment in another EEA State

In reaching this view the Inspectorate has applied the precautionary approach (as explained in its Advice Note twelve: Transboundary Impacts); and taken into account the information currently supplied by the Applicant.

**Action:**

No further action required at this stage.

No new EEA States have been identified as being likely to have significant effects on their environment.

**Date**: 7th November 2018

**Note**: The SoS' duty under Regulation 24 of the 2009 EIA Regulations continues throughout the application process.

Note:
1. The Secretary of State’s screening of transboundary issues is based on the relevant considerations specified in Annex 4 to Planning Inspectorate Advice Note 12 available on the Planning Inspectorate’s website at http://infrastructure.planningportal.gov.uk/legislation-and-advice/advice-notes/